# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

# BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.50y.h. NOS LUN, 13fed Mai, 2024.**

## 1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorion Gwenda DAVIES; Irwedd GRIFFITHS; Glena Humphrey, Bryn Jones, D.Gwyn Jones, John D. Roberts, Goronwy R. WILLIAMS, Hefin WILLIAMS, Cynghorwydd Sir Gonwy Ifor G. Lloyd, Clerc – Mel Jones

## 3. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Gethin Owen

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Glena Humphrey yn datgan diddordeb yn mater cynllunio a'r ffurflen wedi ei arwyddo.

b. D.Gwyn Jones yn datgan diddordeb yn mater cynllunio a'r ffurflen wedi ei arwyddo

## 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 8fed o Ebrill 2023 (Cynnig y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy Williams)

## 6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Ebrill 2024. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

Mawrth 2024:

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £4,777.35 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £4,334.00 (Cyngor Conwy – tal cyntaf y praeseb) |
| | Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | | = £573.00 (Audit Cymru) |
| | | = £45.11 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL) |
| | | = £66.60 (Aston Hughes) |
| | | = £153.54 (Aloma Wheway – Cinio yr henoed) |
| | | = £139.40 (Aloma Wheway – Siocled Sion Corn) |
| | Heb ei Cyflwyno | = £50.00 (RBL – Torchau Sul y Cofion – 200156) |
| | Cyfrif Cymunedol | = £7,621.91 (Cludwyd Ymlaen) |
| (2) | Cyfrif Busnes | = £5,668.48 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Cyfrif Busnes | = £5,668.48 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £13,290.39 (Cludwyd Ymlaen). |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Roedd siec arall wedi ei godi (200156) i dalu am Torchau Sul y Cofion. Roedd y Clerc wedi danfon y siec i gartref Mr Ken Baker.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£41.70 – BT – Infois misol WiFi.

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfoneb yma.

Mae cost aelodaeth yr SLCC yn £158.00 am y flwyddyn. Cytunodd pawb i'r aelodaeth gael ei dalu.

Mae aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn yn £189.00. Cytunodd pawb i'r aelodaeth gael ei dalu.

Mae cost adnewyddu polisi yswiriant cyfrifoldeb gyhoeddus hefo cwmni yswiriant Zurich yn £264.00. Cytunodd pawb i adnewyddu y polisi.

## 8. GOHEBIAETH

**i. Derbynwyd**

Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.

**ii. Anfonwyd**

a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

**i. Ceisiadau i'r Cyngor**

a. Doedd dim cais wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod diweddaraf.

**ii. Ceisiadau gan y Cyngor**

a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

b. Mae adnewyddio caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian yn cael ei drafod o hyn ymlaen yn eitem 12.

## 10. CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)

a. **Cyfeirnod: 0/51670** **Ymgeisydd: Mr P Ryan**

Cynllun: Estyniad ochr unllawr arfaethedig i ffurfio ystafell gyfleustodau newydd

Safle: Ty'n Y Coed, Cilgwyn Road, Llanelian Yn Rhos, Colwyn Bay LL29 8YR

Wedi trafod y cynllun fe cytunwyd na fyddai ddim gwrthwynebiad i'r ymgais ag i Adran Cynllunio Sir Gonwy gael y gwybodaeth. Fydd y penderfyniad yn cael ei adael hefo yr Adran Gynllunio.

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir.

b. **Cyfeirnod: 0/51432** **Ymgeisydd: Mr Berwyn Jones**

Cynllun: Caniatâd amlinellol i godi annedd ar gyfer menter wledig newydd ar dir ym Mryn Ffanigl Ganol, Abergele (Adeiladu Ty Newydd)

Safle: Bryn Ffanigl Ganol, Bryn Ffanigl Road, Rhyd Y Foel, Betws Yn Rhos LL22 8NF.

Gadawodd Glena Humphrey y cyfarfod wedi datgan diddordeb yn y mater cynllunio yma.

Roedd Tom Jones wedi ymholi hefo E bost ar 4/4/24 i gael gwybodaeth beth oedd pwrpas y cartref fel y mae wedi ei gyfeirio fel 'menter wledig'. Atebodd yr Adran Gynllunio ar y 2/5/24 i gadarnhau mai cartref i'r ymgeisydd Mr Berwyn Jones oedd y bwriad.

Wedi trafod y cynllun fe cytunwyd na fyddai ddim gwrthwynebiad i'r ymgais ag i Adran Cynllunio Sir Gonwy gael y gwybodaeth. Fydd y penderfyniad yn cael ei adael hefo yr Adran Gynllunio.

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir

Ar ddiwedd y drafodaeth ymunodd Glena Humphrey a'r cyfarfod.

c. **Cyfeirnod: 0/51667** **Ymgeisydd: Rhys and Rosie Jones**

Cynllun: Estyniad deulawr i'r ochr ac estyniad unllawr i'r cefn, ynghyd â rhai addasiadau mewnol.

Safle: Pencraig Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

Gadawodd D. Gwyn Jones y cyfarfod wedi datgan diddordeb yn y mater cynllunio yma.

Wedi trafod y cynllun fe cytunwyd na fyddai ddim gwrthwynebiad i'r ymgais ag i Adran Cynllunio Sir Gonwy gael y gwybodaeth. Fydd y penderfyniad yn cael ei adael hefo yr Adran Gynllunio.

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir

Ar ddiwedd y drafodaeth ymunodd D. Gwyn Jones. a'r cyfarfod.

d. **Cyfeirnod: 0/51618** **Ymgeisydd: Nina** Cole

Cynllun: Cadw strwythurau'r pafiliwn am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd

Safle: White Lion Inn Llanelian Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YA

Roedd yr cynllun yma wedi cael ei dynnu yn ol gan yr ymgeisydd mis diwethaf.

Wedi trafod y cynllun fe cytunwyd na fyddai ddim gwrthwynebiad i'r ymgais ag i Adran Cynllunio Sir Gonwy gael y gwybodaeth. Mae gwybodaeth for parcio amrhiodol yn y pentref wedi cael ei basio i'r Cyngor. Fydd y penderfyniad yn cael ei adael hefo yr Adran Gynllunio.

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir.

e. **Cyfeirnod: 0/51608** **Ymgeisydd: Mrs N Williams**

Cynllun: Cynnig ar gyfer estyniad anecs

Safle: Tan Y Coed Croes Engan Road Trofarth Betws Yn Rhos

Wedi trafod y cynllun fe cytunwyd na fyddai ddim gwrthwynebiad i'r ymgais ag i Adran Cynllunio Sir Gonwy gael y gwybodaeth. Fydd y penderfyniad yn cael ei adael hefo yr Adran Gynllunio.

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir

## 11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae'r Archwilaid Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2024 yn mynd i fod yn 'Archwiliad Llawn', a bydd hyny yn meddwl llawer mwy o waith. Mae'r Gwaith eisio ei gwbwlhau erbyn 1af o Fehefin 2024.
Mae Tom Jones yn gweithio ar hyn er mwyn ysgafnhau y gwaith i'r Clerc Newydd. Mae'r Clerc yn mynd i gyd weithio gyda Tom Jones i gwblhau y gwaith.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Rhoddodd Cynghorydd Sir Gonwy Ifor LLOYD y diweddaraf am ei ymdrech ar y 'Zip Wire' i godi arain i elusen MIND Conwy. Ar hyn o bryd mae'r cyfanswm wedi cyrraedd £2,100. Roedd Cynghorydd Lloyd yn ddiolchgar i bawb am ei gefnogi.

Mae Cyngor y Sir wedi gwerthu adeilad ERF yn Mochdre ac fydd y pres yn dod yn ol i gyllid y Cyngor.

Mae'r grant argyfwng o tua £800,000 ar ol storm Babet yn mis Hydref 2023 yn cael ei dalu yn fuan. Fydd y grant yn cael ei ddefnyddio i atgyweiro y difrod a achosodd y storm.

Wedi trafodath yn cyfarfod mis Ebrill roedd Cynghorion Irwedd Griffiths a John D Roberts wedi cydweithio gyda'r Clerc i wnued rhestr o'r ffyrdd gwaethaf yn yr ardal. Roedd y rhestr wedi cael ei E bostio i Cynghorydd Lloyd.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

Roedd y Clerc wedi cyfarfod gyda Julie Leese – Swyddog Cymunedau - ar yr 18fed Ebrill 2024 ynglyn a Cae Chwarae Plant Betws yn Rhos. Mae yr archwiliad wnaeth Julie Leese yn Betws yn Rhos wedi cael ei yrru i'r Cynghorwyr. Mae yn dangos fod angen llawer o

waith eisio ei wneud. Yr uchelgais yn y papur yw fod pob cae chwarae yn hollgynhwysol hefo'r eitemau ar gael i bob anabledd.

Yn mis Mawrth 2024 cafodd amcangyfrif o £67,000 gan cwmni 'Soveriegn' ar ol iddynt ddod i Betws yn Rhos. Roedd cytundeb fod yn amlwg fuasai rhaid cael grantiau am gymaint o gost. Cafodd trafodaeth am draferthion gafodd Llanelian yn codi grantiau i adeiladu y Ganolfan Gymunedol. Roedd yn proses hir a chymleth.

Ar ol trafodaeth gofynodd i'r Clerc edrych ar ffyrdd arall i atgyweiro yr eitemau yn y cae yn barod a hefyd ychwanegu atynt.

b. **Diffibrilwyr.**

Mae'r y diffibrilwr yn Llanelian wedi ddod o dan eiddo y Cyngor Cymuned ac ar y cofrestr aset.

Gan fod closg teleffon yn Dawn wedi cael ei symud oddiynno gan BT mae'r siawns o brynnu y glosg am £1 wedi ei fethu.
Mae'r Clerc wedi ymchwil y gost o brynnu closg gan BT i roid diffibrilwr yn Dawn. Mae rhai ail law mewn cyflwr sal yn tua £1,800. Y penederfyniad oedd peidio a mynd ymalen hefo prynnu closg.

Mae Cyngor Cymuned Glan Conwy wedi medru gosod diffibrilwyr ar byst pren oedd wedio cael ei gosod ger pyst trydan gan Cyngor Conwy. Mae'r Clerc yn mynd i gael gwybodaeth ychwanegol gan Clerc Glan Conwy.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau**

Mae Cynghorydd Gethin OWEN yn ymdrechu i roid y gwlau blodau ar ochr y ffordd B5381 wrth arwydd Betws yn Rhos ac yn groesffordd Rhwng y Ddwyffordd.
Byddai yn ymdrechu i wnued hyn yn y bythefnos nesaf.

Mae planhigion ar gael gan y Cyngor Sir.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos.**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor Conwy ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos. Mae nifer o Gynghorau Cymuned wedi cymeryd toiledau drosodd gan y Cyngor Sir. Mae'r Clerc yn mynd i ymchwilio yn bellach.

Mae Cynghorwydd John Evans ar y pwyllgor chwaraeon ac y lleoliad gorau am y toiledau newydd fuasai ar dalcen y Pafiliwn.

Y mater yma yn dal yn cael ei drafod.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632

Ynglyn a parcio amhriodol ym mhentref Llanelian mae y Cyngor Sir wedi cytuno peintio llinell wen 'H' ar y ffordd i atal parcio ar draws y mynedfa. Mae'r gost yn cael ei dalu gan y preswylwyr

## 14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno y praesept o £13,002.00
Fydd £4,334.00 yn cael ei dalu i'r Banc ar 19/4/24, 16/8/24 a 13/12.84

## 15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

## 16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen a dywedodd Cynghorydd D. Gwyn Jones gobeithir y bydd yr adeilad yn barod iw ddefnyddio yn Mehefin 2024.

Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos o hyn ymlaen nes bod yr adeilad newydd yn Llanelian wedi ei orffen.

Roedd penderfyniad wedi cael ei wneud fuasai'r Cyngor yn talu am WiFi yn yr adeilad newydd.

Mae'r Clerc wedi trefnu hyn hefo BT ac wedi cysylltu yn aml hefo Mr Lewis Arnold o bwyllgor y ganolfan gymunedol. Mae'r gwaith gan BT yn mynd ymlaen ac mae eisio gosod llinell newydd i'r adeilad.

Roedd cytuneb i'r Clerc gael costau i osod system teledu ayyb yn y Ganolfan yn debyg i'r system yn ei le yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

**17. Y GADLAS**

Roedd Cynghorydd Irwedd Griffiths wedi ysgrifennu erthygl ardderchog am waith amaethaeol yn papur mis diwethaf.

Dim awgrymiad arall.

**18. UNRHYW FATER ARALL**

a. Awgrymodd y Cynghorydd Irwedd Griffiths ddyliau y Cyngor rhoid gwahoddiad i Tom Jones a'i bartner allan i ginio i ddangos diolch y Cyngor i Tom am y gwaith a wnaeth ar rhan y Cyngor pan oedd yn Glerc. Roedd pawb yn cytuno i fynd ar nos Fercher yn mis Mehefin neu Gorffenaf. Mae'r Clerc yn mynd i siarad hefo Tom Jones i gael dyddiad.
b. Cododd Cynghorydd Bryn Jones y mater o gael ailosod y goeden 'Monkey Puzzle'. Roedd cytundeb fod coeden yn cael ei prynu.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.30 yh.

CADEIRYDD …………………………………………………….John EVANS

CLERC…………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: 3ydd Mehefin 2024